



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)



Cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy



Cafodd Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ei gyflwyno i'r Senedd ar 25 Tachwedd 2024

Bydd y Bil yn rhoi'r dewis i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr.

Mae cyflwyno'r Bil hwn, sy'n seiliedig ar yr egwyddor o degwch, yn un o ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu. Yn ein barn ni, mae'n deg ac yn rhesymol gofyn i ymwelwyr wneud taliad bach tuag at gostau twristiaeth.

Mae twristiaeth yn chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi economïau lleol. Ond gall twristiaeth anghytwys, heb sylfaen i'w chynnal, roi pwysau ar gymunedau lleol a thanseilio'r gwasanaethau a'r profiadau o ansawdd rydyn ni gyd am eu cael ac am eu cynnig i ymwelwyr.



Cyfraddau'r ardoll a sut caiff ei thalu

Pan fo ardoll ymwelwyr ar waith, bydd y gyfradd yn cael ei gosod ar:

- £0.75 y pen y noson i bobl sy'n aros ar safleoedd gweryslla, ar leiniau ac mewn hostেলাu.
- £1.25 y pen y noson i bobl sy'n aros ym mhob math arall o lety.

Rydyn ni wedi cadw'r gyfradd yn isel o'i gymharu â llawer o ardollau ymwelwyr eraill ledled y byd, ac rydyn ni wedi cadw dyluniad yr ardoll yn syml i'w gwneud yn haws i fusnesau ac ymwelwyr ei deall.





Darparwyr fydd yn gyfrifol am dalu'r ardoll. Mae'n debygol y byddan nhw'n trosglwyddo'r tâl hwn i ymwelwyr fel 'treth anuniongyrchol'. Bydd yr ardoll yn cael ei chasglu a'i rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru.

Byddai'r ardoll yn berthnasol i'r holl ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr, waeth o ble maen nhw wedi teithio – p'un a ydyn nhw wedi dod o Gymru, o ardaloedd eraill yn y DU neu o dramor.

Ni fydd yr ardoll yn cael ei chodi ar arosiadau mewn llety ymwelwyr pan fo'r:

- Arhosiad yn hirach na 31 o ddiwrnodau
- Arhosiad wedi digwydd yn unig breswylfa neu brif breswylfa unigolyn
- Arhosiad ar gyfer trefniant lletya brys neu dros dro gan yr awdurdod lleol

Os cafodd ardoll ei thalu am aros dros nos mewn llety ymwelwyr oherwydd sefyllfa frys, er enghraifft, os nad oes modd i unigolyn fyw yn ei brif breswylfa oherwydd tân neu lifogydd, gall ofyn am ad-daliad gan Awdurdod Cyllid Cymru.

Bydd pobl anabl sydd wedi talu costau ardoll ychwanegol pan oedden nhw wedi mynd â gofalwr gyda nhw hefyd yn gallu hawlio ad-daliad.



Defnyddio'r arian a godir

Awdurdodau lleol fydd yn penderfynu beth sydd orau i'w cymunedau, gan ymgynghori â thrigolion a busnesau cyn cyflwyno ardoll. Bydd adroddiad blynyddol yn dangos sut mae'r referniw a godir o fudd i'w hardal.

Pe bai pob awdurdod lleol yn cyflwyno ardoll ymwelwyr, gallai godi hyd at £33m ledled Cymru. Bydd yr arian yn cael ei fuddsoddi gan awdurdodau lleol mewn twristiaeth, gan helpu i dyfu ein heconomi'n gynaliadwy a chefnogi ein cymunedau.

Bydd yr arian newydd hwn yn helpu ardaloedd lleol i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â lletya ymwelwyr, megis glanhau strydoedd, casglu gwastraff, cynnal toiledau, a diogelu atyniadau naturiol a diwylliannol i bawb eu mwynhau. Bydd hyn yn hyrwyddo enw da cyrchfannau ac yn gwella ansawdd bywyd trigolion. Mae gan yr ardoll y potensial i wneud gwahaniaeth sylweddol a gweladwy.





Cofrestr Genedlaethol

Bydd angen i unrhyw un sy'n darparu llety ymwelwyr gofrestru. Bydd hyn yn darparu data gwerthfawr i lywio'r gwaith o ddatblygu twristiaeth yn y dyfodol a helpu i gasglu'r ardoll yn effeithlon, yn yr ardaloedd hynny lle caiff ei chyflwyno. Rydyn ni'n datblygu cynlluniau ar gyfer cynllun trwyddedu, a fydd yn adeiladu ar y gofrestr genedlaethol yn y dyfodol.



Dirwyon a chosbau am beidio â chofrestru neu dalu'r ardoll

Bydd cosbau ariannol am beidio â chydymffurfio â gofynion cofrestru. Y bwriad yw y bydd torri rheolau yn arwain at gosb ariannol. Bydd y rhain yn gymesur â'r golled a achosir i bwrs cyhoeddus Cymru.

Mae cosbau'r ardoll ymwelwyr wedi'u modelu ar y cosbau am y trethi datganoledig yn Neddff Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 fel model Cymreig sy'n gweithio. Yn ychwanegol, mae system bwyntiau am ffeilio ffurflenni'n hwyr, felly ni fydd darparwyr llety yn cael eu cosbi'n ariannol y tro cyntaf y byddan nhw'n ffeilio'n hwyr.



Amserlenni

Nid yw'r pethau hyn yn digwydd dros nos. Mae'r Bil wedi'i gyflwyno i'r Senedd a bydd yn awr yn destun craffu trylwyr gan y Senedd. Disgwylir penderfyniad ynghylch a fydd yn dod yn gyfraith yn 2025.

Os daw'r Bil yn gyfraith, bydd awdurdodau lleol yn gallu penderfynu a ydyn nhw am gyflwyno ardoll yn eu hardaloedd lleol, ar ôl ymgynghori â'u poblogaeth leol a busnesau yn gyntaf. Y dyddiad cynharaf posibl y gallai ardoll ymwelwyr gael ei chyflwyno gan awdurdod lleol yn ei ardal fyddai 2027.

Bydd pob awdurdod yn penderfynu sut i ddefnyddio'r refeniw a godir i gefnogi twristiaeth leol ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut mae'r arian hwn yn cael ei wario.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, busnesau ac Awdurdod Cyllid Cymru i greu canllawiau clir a syml ar gyfer gweithredu'r ardoll.

Bydd y broses gofrestru ar gyfer pob darparwr llety yn dechrau yn 2026.





2024 Cyflwyno

Cyflwyno'r bil gerbron y senedd er mwyn craffu arno. Cyhoeddi asesiadau effaith



2025 Pleidlais yn y Senedd

Os caiff y Bil ei basio, bydd yn cael y cydsyniad brenhinol



2025 Disgresiwn Lleol

Awdurdodau lleol yn gallu dechrau ymgynghori'n lleol ac asesu effaith ardoll ymwelwyr



2026 Cyfnod Rhybudd

Cyfnod rhybudd o 12 mis yn debygol, os bydd awdurdodau lleol yn penderfynu cyflwyno ardoll



2026 Cofrestru

Cofrestru yn dechrau



2027 Gweithredu

Dyddiad dangosol ar gyfer cyflwyno ardoll ymwelwyr gan awdurdodau lleol



Ardollau ymwelwyr mewn gwledydd eraill

Mae ardollau ymwelwyr yn gyffredin ar draws y byd, megis yng Ngwlad Groeg, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Sbaen, Portiwgal a Ffrainc. Mae'r syniad yn ennill tir yn fyd-eang. Mae cyrchfannau'n defnyddio trethiant yn gynyddol i gefnogi twristiaeth, gan gynnwys i ariannu'r gwaith o adfer treftadaeth ddiwylliannol a diogelu natur. Yn y gwledydd sy'n defnyddio ardollau, mae economïau ymwelwyr yn parhau i ffynnu.

Os ydych chi wedi trefnu gwyliau i un o'r lleoedd hyn, byddwch wedi cyfrannu at y diwydiant twristiaeth lleol drwy dalu ardoll.



Ynysoedd Baleares

Yn 2016, cyflwynodd Ynysoedd Baleares dreth gynaliadwy i gefnogi prosiectau twristiaeth. Yn 2023, ymwelodd mwy na 17.8m o dwristiaid, sef cynnydd o 8% dros ddau ddegawd. Mae'r dreth wedi ariannu 168 o brosiectau gwerth €263m, ac yn 2023 cafodd 27 o brosiectau newydd, gwerth cyfanswm o €138m, eu cymeradwyo. Mae'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar yr amgylchedd, twristiaeth, treftadaeth ddiwylliannol, ymchwil, hyfforddiant, a thai rhent cymdeithasol.

Mae'r dreth yn berthnasol i lety gwyliau. Y gyfradd yw €4 y pen y dydd ar gyfer gwystai moethus, €3 ar gyfer gwystai ystod ganolig, a €2 ar gyfer fflatiau, llongau mordeithio, safleoedd gwersylla, a hostelaau. Mae'r referniw yn cefnogi'r gwaith o ddiogelu adnoddau ar yr ynysoedd.



Catalwnia a Barcelona

Yng Nghatalwnia, mae arian o'r ardoll wedi cael ei ddefnyddio i ariannu datblygiadau seilwaith, cadwraeth amgylcheddol a gwaith diogelu treftadaeth ddiwylliannol. Mae'r ardoll ymwelwyr wedi chwarae rhan hanfodol o ran hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy yn y rhanbarth.

Mae gan Barcelona dreth dwristiaeth hefyd. Ers 2012, mae'r dreth wedi cynhyrchu gwerth €72.7m o refeniw i'r ddinas, sydd wedi cael ei ddefnyddio tuag at reoli, hyrwyddo a datblygu cyrchfannau. Mae arian a gynhyrchir o drethi twristiaeth yn cael ei ddefnyddio i gefnogi mentrau sy'n canolbwyntio ar gadwraeth amgylcheddol, hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, diogelu treftadaeth hanesyddol, cefnogi ymchwil wyddonol, meithrin datblygiadau cymunedol, hybu gweithgareddau diwylliannol a chreadigol, ac annog arloesedd ym maes twristiaeth.



Gwlad yr Iâ

Mae Gwlad yr Iâ wedi defnyddio ei hardoll i ariannu datblygiadau seilwaith, cadwraeth amgylcheddol a gwaith diogelu treftadaeth ddiwylliannol. Mae seilwaith gwell yn hybu twristiaeth mewn ardaloedd llai poblogaidd, tra mae prosiectau cadwraeth yn cynnal harddwch naturiol y wlad. Yn ogystal, mae'n cefnogi'r gwaith o adfer safleoedd hanesyddol a chanolfannau diwylliannol, gan wella profiad ymwelwyr a diogelu treftadaeth y wlad. Mae'r ardoll ymwelwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth, seilwaith a chadwraeth ddiwylliannol gynaliadwy yno.



De Tyrol, Yr Eidal

Mae ardollau ymwelwyr yn gyffredin ar draws yr Eidal, gan gynnwys yn Rhufain a Fenis. Yn Ne Tyrol, mae arian o'r ardoll ymwelwyr wedi cael ei ddefnyddio i wella profiad ymwelwyr a hyrwyddo cynaliadwyedd. Mae prosiectau amrywiol wedi elwa, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi cymdeithasau twristiaeth lleol ac yn diogelu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog y rhanbarth. Mae'r ymdrechion hyn nid yn unig wedi cynyddu'r refeniw o dwristiaeth ond hefyd wedi gwella boddhad ymwelwyr yn sylweddol.



Y Deyrnas Unedig

adref yn profi'r manteision posibl y gall ardoll ymwelwyr eu cynnig i ardal.

Ym mis Ebrill 2023, cyflwynodd Manceinion Dâl Ymweld â'r Ddinas o £1 y pen y noson. Dyma dâl sy'n cael ei godi gan 73 o westai yng nghanol y ddinas, ac yn ei flwyddyn gyntaf cododd £2.8m i gefnogi digwyddiadau newydd.

Pasiodd Senedd yr Alban ddeddfwriaeth eleni - Deddf Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) 2024 - sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll yn seiliedig ar ganran o gost y llety. Mater i gynghorau unigol yw penderfynu ar y cyfraddau. Bydd Caeredin yn cyflwyno ardoll o 5% ar ystafelloedd yn 2026.

Mae Caerfaddon, Lerpwl, Birmingham a Llundain yn ystyried y syniad o gyflwyno tâl tebyg.

Byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn gam yn nes tuag at Gymru decach, fwy cynaliadwy, lle mae manteision a chyfrifoldebau twristiaeth yn cael eu rhannu gan bawb.



Mae'r wybodaeth hon yn esbonio prif elfennau'r Bil.
Am wybodaeth fanylach ac i ddilyn hynt y Bil, ewch i:
www.llyw.cymru/ardolymwelwyr

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50102,
ISBN digidol 978-1-83625-982-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

